Ffi gyfredol **Ffi arfaethedig** **Newid (yn £)** **Math o newidiad**

Tai

Porth Gofal

Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth *	Tâl trwyddedu gorfodol fesul pob ystafell gyfanheddol o 15 i 25 (cynhwysol) (*)	Trwydded Newydd	£51.00	£54.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Adnewyddu Trwydded (ar yr amod bod y meini prawf adnewyddu yn cael eu diwallu)	£42.00	£45.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
Tâl trwyddedu gorfodol fesul pob ystafell gyfanheddol o 26+ (*)	Trwydded Newydd	Trwydded Newydd	£24.00	£26.00	£2.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Adnewyddu Trwydded (ar yr amod bod y meini prawf adnewyddu yn cael eu diwallu)	£18.00	£19.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
Tâl trwyddedu ychwanegol fesul pob ystafell gyfanheddol (y rhai hynny nad ydynt yn gymwys am dâl gorfodol)	Trwydded Newydd	Trwydded Newydd	£285.00	£304.00	£19.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Adnewyddu Trwydded (ar yr amod bod y meini prawf adnewyddu yn cael eu diwallu)	£239.00	£255.00	£16.00	Chwyddiant cysylltiedig
Ad-daliad rhannol – pan gaiff Tŷ Amlfeddiannaeth ei droi'n ôl yn dŷ i un teulu neu'i werthu yn ystod cyfnod pum mlynedd y drwydded, a phan fu llai na 2 ymweliad (Hyd at £)			£239.00	£255.00	£16.00	Chwyddiant cysylltiedig
Ffi Gweinyddol Tai Amlfeddiannaeth ar gyfer newid trwydded neu dderbyn copi o drwydded ar gais deiliad y drwydded			£37.00	£39.00	£2.00	Chwyddiant cysylltiedig
Ffi Weinyddol Tai Amlfeddiannaeth ar gyfer gwneud amrywiad sylweddol i drwydded (cyfeiriwch at Ddeddf Tai 2004 Atodlen 5, Rhan 2) lle gofynnir i'r awdurdod tai lleol ymgynghori ynghylch newid sylweddol i'r drwydded			£280.00	£299.00	£19.00	Chwyddiant cysylltiedig
Copi o'r Gofrestr Tai Amlfeddiannaeth			£49.00	£52.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
Gwiriadau mewnfudo	Gwiriadau Safonau Tai Mewnfudwyr		£168.00	£179.00	£11.00	Chwyddiant cysylltiedig
Gwasanaeth Cyngori Tai Amlfeddiannaeth	Ymweliad i wneud arolwg, gydag atodlen waith gryno a lluniad o'r gosodiad		£1,034.00	£1,103.00	£69.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ymweliad i wneud arolwg, gydag atodlen waith fanwl, lluniad wrth raddfa, tendro a goruchwyllo'r holl waith.	12% o gost y gwaith ynghyd â ffioedd statudol (e.e. Rheoli Adeiladu/Cynllunio)				Dim newidiad
Tâl am asesiad cyflawn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai dan Adran 49 Deddf Tai 2004, ynghyd â chyflwyno rhybudd anstatudol am ddiffyg cydymffurfiaeth wedi hynny	Cyflwyno Rhybudd Gwella dan Adran 11 neu 12		£508.00	£542.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Gwneud Gorchymyn Gwahardd dan Adran 20 neu 21		£508.00	£542.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Cymryd camau adfer brys dan Adran 40		£508.00	£542.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Gwneud Gorchymyn Gwahardd Brys dan Adran 43		£508.00	£542.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Gwneud Gorchymyn Dymchwel (Adran 265 Deddf Tai 1985)		£508.00	£542.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig

Tudalen 176

* O 01/04/2018 ymlaen, bydd ffioedd am gais trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (ar gyfer trwydded newydd ac ar gyfer adnewyddu trwydded) yn cael eu rhannu'n ddwy – swm cyn cyhoeddi trwydded a swm ar ôl cyhoeddi trwydded. Bydd y swm llawn yn daladwy wrth wneud y cais, gydag ad-daliad yn cael ei roi os bydd y cais yn cael ei ystyried a'i wrthod. Rhennir y symiau hyn fel a ganlyn: Cais newydd: 80% cyn cyhoeddi'r drwydded; 20% ar ôl ei chyhoeddi. Adnewyddu cais; 90% cyn cyhoeddi'r drwydded; 10% ar ôl ei chyhoeddi.

** Gostyngiad o 50% ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth mwy o faint sy'n cyflenwi anghenion llety'r Brifysgol (ond nad ydynt dan berchnogaeth neu reolaeth uniongyrchol y Brifysgol) ar yr amod eu bod wedi'u cofrestru ac yn cydymffurfio'n llwyr â Chod Ymarfer ANUK ar gyfer llety myfyrwyr

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol **Ffi arfaethedig** **Newid (yn £)** **Math o newidiad**

Tai yn Gartrefi ***Porth Gofal***

Ffi gweinyddu	Benthyciadau hyd at £10,000		£1,141.00	£1,210.00	£69.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Benthyciadau rhwng £10,001 a £25,000		£1,715.00	£1,818.00	£103.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Benthyciadau dros £25,001 (Hyd at £250,000)		£2,512.00	£2,663.00	£151.00	Chwyddiant cysylltiedig
Gwasanaeth Goruchwyllo	Gall y Cyngor ddarparu gwasanaeth goruchwyllo gwaith adeiladu i sicrhau bod safon y saerniaeth yn gyson a bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n brydlon	10% yn ychwanegol at gostau'r cynllun			£0.00	Dim newidiad

Bydd y ffioedd hyn ar gyfer landlordiaid yn cael eu hepgor os bydd yr eiddo'n cael ei gynnig i'w rentu ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol am gyfnod y benthyciad, ac os bydd y landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid ar Gofrestr Tai Fforddiadwy'r Cyngor neu i denant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon

ATODIAD F

Premiymau Treth y Cyngor

Y diweddaraf am y Cynllun Tai Cymunedol

1. Aeth y Cynllun yn fyw ar 06/11/23 ac mae'n cael ei hyrwyddo'n eang mewn nifer o wahanol ffyrdd:
 - Crëwyd gwefan:
[Y Cynllun Tai Cymunedol - Cyngor Sir Ceredigion](#)
 - Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg:
[Ceredigion County Council launches community housing scheme | Tivyside Advertiser](#)
[Community Housing Scheme launches in Ceredigion - Carmarthenshire News Online](#)
[Ceredigion County Council launches shared equity scheme to help locals onto housing ladder | cambrian-news.co.uk](#)
 - Cafodd yr holl Aelodau wybod am y cynllun newydd ar e-bost ac yn y cyfarfodydd perthnasol.
 - Cynhelir ymgyrchoedd rheolaidd ar dudalennau'r Cyngor ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Twitter / Facebook / Instagram)
 - Mae'r swyddogion perthnasol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / datblygwyr preifat) yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Tai Cymdeithasol.
 - Ymgysylltwyd â'r broceriaid morgesi arferol.
2. Mae'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn uwch ers y Nadolig.
3. Mae £1.8m ym malans agoriadol y cynllun ac mae'r arian hwn yn dod o Bremiymau Treth y Cyngor. Mae'r arian hwn wedi cronni ers 31/03/23.
4. Hyd yn hyn, mae un cais wedi dod i law.
5. Mae dau gais arall wedi'u cyflwyno'n rhannol.
6. Mae saith ymholiad ffurfiol wedi dod i law hyd yma.
7. Nid oes taliadau wedi'u gwneud hyd yn hyn.
8. Mae'r trafodaethau â'r asiantiaid lleol yn parhau er mwyn symleiddio'r broses ymgeisio a sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofynion y benthycwyr.
9. Mae'n rhy gynnar ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau yn wyneb cyflwr y farchnad dai ar hyn o bryd a'r sefyllfa gyfredol o ran cyfraddau llog. Mae'r sefyllfa o ran cyfraddau llog yn dechrau gwella ac mae'r Benthycwyr wedi lleihau eu cyfraddau yn yr wythnosau diwethaf.

Darn o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24

Ar 14/12/23, ystyriodd yr Aelodau lefel Premiymau Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi o 01/04/24 ymlaen a phenderfynwyd y dylai'r Premiwm presennol o 25% gynyddu.

O ganlyniad i'r penderfyniad mae sylfaen treth y Cyngor ar gyfer 24/25 wedi cynyddu. Cadarnhaodd yr adroddiad i'r Cabinet ar 21/12/23, fod yna gynnydd o 3.05% yn amcangyfrif Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 24/25 (cynnydd o 1,000.52 o ran Band D). Yn seiliedig ar elfen Band D y Cyngor ar lefel bresennol 2023/24, mae hyn yn cyfateb i tua £1.555m heb unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn i bob pwrpas yn ymwneud ag amcangyfrif darbodus o'r budd ariannol tebygol o'r cynnydd ym Mhremiymau Treth y Cyngor ac mae'n ychwanegol at y lefel gyfredol o 25% y mae swm pellach o £615k wedi'i gyllidebu ar ei chyfer ar hyn o bryd.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Premiymau Treth y Cyngor yn nodi y gall Awdurdod Lleol gadw unrhyw arian ychwanegol a gynhrychir gan Breimiymau Treth y Cyngor. Mae hefyd yn nodi y gall Awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, er eu bod yn cael eu hannog i'w ddefnyddio i helpu i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â'r bwriadau polisi ar gyfer y premiymau.

Ar hyn o bryd, mae 25% o'r Premiymau Treth y Cyngor presennol o Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi wedi'i glustnodi fel ymrwymiad i ddiwallu anghenion tai lleol. Mae gan y gronfa Tai Cymunedol newydd falans o £1.8m ar 31/03/23 a bydd hyn yn cynyddu ymhellach erbyn 31/03/24.

O ystyried yr her gyllidebol anferthol sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r Cabinet yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd posibl i glustnodi holl breimiymau Treth y Cyngor yn llwyr a'r angen i ystyried sefyllfa'r Gyllideb yn ehangach. Er enghraifft, byddai £1.555m yn medru lleihau lefel Treth y Cyngor Band D tua 3.5%.

Mae'r Cabinet felly am weld y Cynllun Tai Cymunedol yn parhau i weithredu hyd yn oed os yw'r cyllid cychwynnol yn cael ei ddefnyddio ond mae o'r farn nad oes unrhyw fudd pe byddai gormod o arian ar gael ar unrhyw adeg benodol. Felly, ar ôl trafod hyn yn ofalus, mae'r Cabinet yn cynnig:

- Parhau i neilltuo 25% o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24, ond na ddylai cyfanswm y cyllid sy'n cael ei ddal fynd y tu hwnt i £2.0m. Byddai hyn yn dal i ganiatáu i arian gael ei ddefnyddio ac i arian gael ei ychwanegu gan ddefnyddio 25% o arian premiymau Treth y Cyngor. Byddai unrhyw gyllid ychwanegol y tu hwnt i'r £2.0m mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
- Byddai'r 75% arall o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion tua 3.5%.

ATODIAD G

Rhaglen Gyfalaf Amflwyddyn 2023/24 - 2026/27

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)

Ysgol Henry Richard

Cefnogi cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim

Canolfan Trochi Iaita a bloc newydd o ddsbarthiadau

Anghenion Dysgu Ychwanegol - Addasiadau i Adeiladau

Prosiect E-sgol

To Newydd Llwyn yr Eos

Darpariaeth Gofal Plant

To Newydd yr Amgueddfa

Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol

Systemau gwresogi o dan y llawr - Ysgolion

Gwaith Brys mewn Ysgolion

3,386	6,178	9,564	1,875	4,094	5,969	-	-	-	-	-	-
37	-	37	-	-	-	-	-	-	-	-	-
798	-	798	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	50	50	-	200	200	-	1,500	1,500	-	3,658	3,658
-	458	458	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	73	73	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	-	-	250	-	250	-	-	-	-	-	-
-	1,380	1,380	-	576	576	-	-	-	-	-	-
-	-	-	1,100	-	1,100	-	-	-	-	-	-
2,285	-	2,285	-	-	-	-	-	-	-	-	-
60	-	60	535	-	535	-	-	-	-	-	-
150	-	150	150	-	150	150	-	150	150	-	150
6,716	8,139	14,855	3,910	4,870	8,780	150	1,500	1,650	150	3,658	3,808

Cyfanswm - Ysgolion**Porth Cymorth Cynnar**

Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan

Gwaith Brys mewn Canolfannau Llesiant

Cam 2 Uwchraddio Cyfleusterau Llesiant - Chwaraeon Cymru

Caeau Chwaraeon Artiffisial

Pyllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul Cyf

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n

Gartrefi

Cynllun Tai Cymunedol

Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol

Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo

Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau

Cronfa Tai â Gofal - gan gynnwys Addasiadau Tai a chyllid atodol ar

gyfer addasiadau Cyfleusterau i'r Anabl

Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol

123	122	245	-	-	-	-	-	-	-	-	-
225	-	225	200	-	200	50	-	50	50	-	50
-	537	537	262	108	370	-	-	-	-	-	-
107	4	111	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	89	89	-	-	-	-	-	-	-	-	-
1,400	-	1,400	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400
61	-	61	-	-	-	-	-	-	-	-	-
100	-	100	600	-	600	600	-	600	500	-	500
-	146	146	-	-	-	-	-	-	-	-	-
10	42	52	161	-	161	-	-	-	-	-	-
400	-	400	1,288	-	1,288	-	-	-	-	-	-
-	120	120	-	-	-	-	-	-	-	-	-
82	-	82	82	-	82	-	-	-	-	-	-
2,508	1,060	3,568	2,462	108	2,570	2,050	-	2,050	1,950	-	1,950

Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

Yr Economi ac Adfywio

Gwaith Trin Carthion
Gwaith Brys Arall
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed Ffyrdd Newydd o Weithio
Buddsoddiadau mewn Cynlluniau Ynni
Rhaglen Datblygu Asedau
Neuadd y Farchnad Aberteifi
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau
Grant Gwella Mynediad
Grant Adferiad Gwyrdd
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig
Afon Teifi
Stryd Ioan, Ceinewydd - Gwella Mynediad i'r Ardal
Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
Prosiectau Ffyniant Bro

200	-	200	456	-	456	-	-	-	-	-	-
100	-	100	100	-	100	100	-	100	100	-	100
175	-	175	175	-	175	175	-	175	175	-	175
5	-	5	1,250	-	1,250	250	-	250	-	-	-
-	180	180	-	-	-	-	-	-	-	-	-
369	28	397	-	-	-	-	-	-	-	-	-
50	-	50	50	-	50	50	-	50	50	-	50
-	103	103	-	103	103	-	-	-	-	-	-
-	32	32	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	445	445	-	-	-	-	-	-	-	-	-
9	36	45	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	366	366	-	394	394	-	-	-	-	-	-
-	1,794	1,794	-	7,771	7,771	-	-	-	-	-	-

Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio

908	2,984	3,892	2,031	8,268	10,299	575	-	575	325	-	325
------------	--------------	--------------	--------------	--------------	---------------	------------	----------	------------	------------	----------	------------

Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Priffyrdd
Gwasanaethau Amgylcheddol
Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Gwelliannau i Seilwaith Coridorau Bysiau
TrawsCymru
Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Cyllid Craidd ar gyfer Coridorau Bysiau
Trawsnewid - Cerbydau Allyriadau Isel Iawn
Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC)
Arian Craidd y Gronfa Teithio Llesol
Y Gronfa Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS - Cam 1
Dyranid Craidd 20mya
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Llanrhystud
Cae'r Henwas (Cwblhau'r Safle)
Goleuadau Stryd - Buddsoddi i Arbed
Seilwaith Parcio
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont
Dyluniad Manwl ar gyfer Gwaith Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron
Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth
Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog
Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas

2,200	-	2,200	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080
66	-	66	60	-	60	60	-	60	60	-	60
-	950	950	-	950	950	-	-	-	-	-	-
-	250	250	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	298	298	-	370	370	-	-	-	-	-	-
8	8	16	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	500	500	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	1,490	1,490	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	739	739	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	50	50	-	-	-	-	-	-	-	-	-
9	-	9	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	-	-	110	-	110	-	-	-	-	-	-
-	-	-	250	-	250	-	-	-	-	-	-
-	61	61	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	121	121	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	107	107	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	232	232	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	24	24	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	40	40	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron
 Cerbydau Newydd i'r Fflyd
 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff

Cyfanswm - Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000
13,000	-	13,000	18,590	-	18,590	-	-	-	-	-	-
848	-	848	500	-	500	1,500	-	1,500	1,500	-	1,500
-	-	-	1,025	-	1,025	-	-	-	-	-	-
16,131	4,870	21,001	22,615	1,320	23,935	3,640	-	3,640	3,640	-	3,640

Porth Gofal

Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl
 Y Gronfa Tai â Gofal - Llety Diogel i Blant
 Uwchraddio Cartrefi Preswyl
 Buddsoddiad Cyfalaf Cartref Preswyl Hafan y Waun

Y Gronfa Tai â Gofal - gan gynnwys Storfa Offer Cymunedol Integredig, gwella offer ac effeithlonrwydd, gwneud asesiadau a darparu synwryddion, a throsi'r llofa i fod yn ystyriol o dementia yn Hafan Deg.

Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan Deg

Cyfanswm - Porth Gofal

100	-	100	100	-	100	100	-	100	100	-	100
-	1,182	1,182	-	428	428	-	-	-	-	-	-
280	-	280	600	-	600	256	-	256	-	-	-
200	-	200	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	121	121	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	379	379	-	-	-	-	-	-	-	-	-
580	1,682	2,262	700	428	1,128	356	-	356	100	-	100

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Ceredigion a Phowys)

Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

-	2,040	2,040	-	6,012	6,012	-	-	-	-	-	-
-	2,040	2,040	-	6,012	6,012	-	-	-	-	-	-

Cyswllt Cwsmeriaid

Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh

Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid

390	-	390	300	-	300	300	-	300	380	-	380
390	-	390	300	-	300	300	-	300	380	-	380

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

Cyllid a Chaffael

Cynllun Grantiau Cymunedol

Cyfanswm - Cyllid a Chaffael

150	-	150	100	-	100	100	-	100	100	-	100
150	-	150	100	-	100	100	-	100	100	-	100

Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Contract Inphase

Cyfanswm - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

30	-	30	-	-	-	-	-	-	-	-	-
30	-	30	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Diwygio Gwasanaethau

Cyfarwyddyd Cyfalafu - Diwygio Gwasanaethau

CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH

27,513	20,775	48,288	33,649	21,006	54,655	7,171	1,500	8,671	6,645	3,658	10,303
--------	--------	--------	--------	--------	--------	-------	-------	-------	-------	-------	--------

Arian wrth gefn

Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau

Cyfanswm - Arian wrth gefn

350	-	350	250	-	250	350	-	350	350	-	350
182	1,569	1,751	200	4,000	4,200	200	4,000	4,200	200	4,000	4,200
532	1,569	2,101	450	4,000	4,450	550	4,000	4,550	550	4,000	4,550

CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL

28,045	22,344	50,389	34,099	25,006	59,105	7,721	5,500	13,221	7,195	7,658	14,853
--------	--------	--------	--------	--------	--------	-------	-------	--------	-------	-------	--------

Maer dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach
a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron ac o bell ar Ddydd Mercher, 22 Tachwedd 2023**

Presennol: Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Mark Strong a Carl Worrall.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Ifan Davies, Raymond Evans, Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorwyr Bryan Davies ac Alun Williams.

Swyddogion yn bresennol: Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd; Heddwyn Evans, Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd; Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal; Nerys Lewis; Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Uniongyrchol; Helen Harries, Swyddog Cefnogi Prosiect; Wendy Cushley, Swyddog Datrysiadau Busnes; Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd.

(10.00am- 12.06pm)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau

- i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr John Roberts a Matthew Vaux (Aelod Cabinet) am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
- ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Keith Evans am adael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ymrwymadau eraill y Cyngor.
- iii. Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd John Roberts yn dilyn salwch diweddar. Hefyd, estynnwyd cydymdeimlad i'r Cynghorydd John Roberts a'i deulu ar golli ei wyres.
- iv. Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Wyn Evans ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

- i. Datganodd y Cynghorydd Wyn Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 3 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod a buddiant personol mewn perthynas ag eitem 4.

- ii. Datganodd y Cynghorydd Eryl Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 3.
- iii. Datganodd y Cynghorydd Sian Maehrlein fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6.

Gweithdrefn

Cytunwyd y byddai eitem 8 yr agenda yn cael ei ystyried cyn eitem 6 yr agenda sydd i'w gweld ar y papurau agenda.

3 Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-2024

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democraataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth) yr adroddiad ar ran y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod y Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd). Roedd rheolaethau rheoleiddiol ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn hanfodol ar gyfer sicrhau diogelwch bwyd a dilysrwydd y gadwyn fwyd o'r fferm i'r fforc. Roedd yn bwysig bod rheolaethau rheoleiddiol yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y DU gyfan er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw fethiant mewn safonau yn y gadwyn fwyd a allai effeithio ar ddilysrwydd a hyder defnyddwyr yn y bwyd roeddent yn ei fwyta. Roedd dilysrwydd y gadwyn fwyd anifeiliaid yn hanfodol nid yn unig i les anifeiliaid, ond hefyd er mwyn osgoi unrhyw weddillion niweidiol mewn bwyd anifeiliaid a allai effeithio ar unrhyw anifail oedd yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol.

Roedd Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn cyhoeddi Codau Ymarfer oedd yn rheoleiddio sut oedd Awdurdodau Lleol yn darparu eu gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gael digon o adnoddau i archwilio busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn rheolaidd yn ôl y risg i iechyd a achoswyd ganddynt. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Gwasanaeth i ddangos sut y caiff y gofynion bwyd a bwyd anifeiliaid eu cyflawni a sut ddarparwyd adnoddau digonol bob blwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad i'r Cynllun Gwasanaeth fynd trwy'r broses ddemocraataidd.

Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn rhoi amlinelliad o'r gofynion arolygu bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer 2023/2024. Roedd y flwyddyn hon yn cynrychioli newid sylweddol i arolygiadau "deuol", lle roedd hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cyfuno mewn un arolygiad. Roedd Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd wedi ymgymryd â hyfforddiant ac asesiad sylweddol i fod yn gymwys i gynnal yr arolygiadau deuol hyn yn unol â safonau Codau Ymarfer yr ASB. Canlyniad dymunol arolygiadau deuol yw ei fod yn lleihau'r baich arolygu ar fusnesau bwyd ac yn cynyddu effeithlonrwydd i'r Awdurdod o ran osgoi dau ymweliad ar wahân. Roedd adolygiad o adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth wedi canfod, gyda'r cyllid ychwanegol, y dylai'r gwasanaeth fod ag adnoddau digonol i gyflawni'r rhaglen bwyd a bwyd anifeiliaid y flwyddyn hon. Fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu ar allu Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd i gyflawni eu dyraniad arolygu. Gallai galwadau eraill ar y gwasanaeth a salwch ac ati effeithio ar eu gallu i gwblhau'r rhaglen. Roedd yn ofynnol i'r swyddogion hyn weithio ar draws maes cyfan Diogelu'r

Cyhoedd, felly gallai unrhyw flaenoriaethau iechyd y cyhoedd oedd yn gwrthdaro gael effaith andwyol.

Rhoddodd Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu'r Cyhoedd drosolwg o'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a'r heriau presennol ac yn y dyfodol wrth ddarparu'r gwasanaeth statudol. Roedd gorfodi cyfraith bwyd yn swyddogaeth a rhannwyd ac fe'i cyflawnwyd gan swyddogion y timau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, a gydnabyddwyd ar y cyd o fewn yr Awdurdod fel "Diogelu'r Cyhoedd". Ymgwymerwyd ag ystod o swyddogaethau gan y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid megis cofrestru safleoedd bwyd, gweithgareddau gorfodi ac ymchwilio i achosion a amheuir ac achosion a gadarnhawyd o glifydau trosglwyddadwy.

Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:

- Roedd y galw ar y gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn wrth i safleoedd agor a chau.
- Ar 31.08.2023, roedd 1210 o fusnesau bwyd cofrestredig yn bodoli yng Ngheredigion a chymeradwywyd 19 o safleoedd o dan Reoliad EC Rhif 853/2004 ac ar 01.04.2023, roedd 1380 o fusnesau bwyd anifeiliaid yn destun rheolaethau rheoleiddiol yng Ngheredigion.
- Cyfanswm nifer yr arolygiadau hylendid bwyd wedi'u rhaglennu o safleoedd risg uchel a dargedwyd i'w cynnal yn ystod 2023/24 oedd 252.
- Tua 80 o ailymweliadau â safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio'n fras a 50 cais am ailaryoliad o dan y CSHB (arolygiadau heb eu rhaglennu).
- Dechreuodd 10-12 o fusnesau newydd fasnachu yng Ngheredigion bob mis. Rhaid i sefydliadau bwyd newydd a ddaeth i sylw'r Awdurdod Bwyd am y tro cyntaf fod yn destun arolygiad cychwynnol o safbwynt hylendid bwyd a safonau bwyd o fewn 28 diwrnod i gofrestru gyda'r Awdurdod. Ym mis Awst 2023, roedd ôl-groniad o 155 o safleoedd yn aros am arolygiad hylendid bwyd ac roedd 328 o safleoedd yn aros am arolygiad safonau bwyd. Roedd arbenigwr bwyd wedi'i gontractio i gefnogi'r gwaith hwn.
- Roedd 188 o safleoedd i fod i gael ymyriadau bwyd anifeiliaid yn 2023/24 a chafodd hyn ei ariannu gan yr ASB.

Esboniodd Carwen Evans fod adnoddau digonol i gyflawni'r swyddogaeth statudol ar gyfer 2023/24 ar yr amod nad oedd dim argyfyngau na gwaith ymchwilio mawr. O ran 2024/25, o ystyried y cynnydd sylweddol mewn arolygiadau sydd i fod i ddigwydd, efallai y bydd angen i'r gwasanaeth ofyn am gyllid ychwanegol i gontractwyr i gefnogi'r gwaith.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Bryan Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Gan fod ffermwyr dan bwysau sylweddol, awgrymwyd y dylid cael mwy o gydweithio rhwng cyrff fel yr awdurdod lleol, DEFRA a'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw. Nodwyd nad oedd yr arolygiad gan yr awdurdod lleol (fel y corff gorfodi) mor helaeth ar gyfer ffermwyr a oedd yn aelodau o gynlluniau achrededig megis y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw, gan eu bod eisoes yn destun gwiriadau.

- Adenillwyd costau'n llawn i'r awdurdod lleol pan gynhaliodd arolygiadau bwyd anifeiliaid fel rhan o'r rhaglen arolygu hylendid rhanbarthol.
- Os oedd gan yr awdurdod lleol brinder swyddogion i wneud y gwaith, roedd awdurdodau lleol cyfagos yn gallu rhoi cymorth, yn enwedig gyda bwyd anifeiliaid, ond nid oedd hyn wedi bod yn ofynnol eto.
- Roedd yn ofynnol i bob busnes a oedd yn paratoi ac yn gwerthu bwyd gofrestru gyda'r awdurdod lleol cyn gwneud hynny, fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn wir.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn yr adroddiad ac argymhell i'r Cabinet bod Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-24 yn cael ei gymeradwyo.

4 Gwaharddiad ar werthu a chyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro yng Nghymru yn dod yn gyfraith

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democraataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth) yr adroddiad ar ran y Cynghorydd Matthew Vaux. Roedd y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn cyflwyno Cam 1 o'r gwaharddiad ar fusnesau a sefydliadau yng Nghymru i werthu neu gyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr, a daeth i rym ar 30.10.2023.

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i fusnesau a sefydliadau gyflenwi'r cynhyrchion canlynol:

- Platiau plastig untro
- Cytleri plastig untro – fel cyllyll, ffyrc a llwyau
- Trowyr plastig untro ar gyfer diodydd
- Cwpanau wedi'u gwneud o rai mathau o bolystyren
- Cynwysyddion cludfwyd wedi'u gwneud o rai mathau o bolystyren
- Ffyn plastig ar gyfer balwnau
- Ffyn cotwm plastig untro
- Gwellt yfed plastig untro – ar wahân i bobl sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol

Roedd y gwaharddiad yn effeithio ar fanwerthwyr, gwerthwyr bwyd, siopau cludfwyd a'r diwydiant lletygarwch ac roedd yn berthnasol i gyflenwadau dros y cownter ac ar-lein. Fodd bynnag, roedd nifer o eithriadau, er enghraifft caniateir i fferyllfeydd barhau i ddarparu gwellt plastig mewn achosion lle'r oedd unigolion eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol. Roedd eithriadau eraill yn gweld ffyn cotwm â choesau plastig yn dal i gael eu defnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd a chaniateir cyflenwi llwyau plastig gyda meddyginiaethau hylifol er mwyn mesur dos.

Bydd gwaharddiadau Cam 2 yn dod i rym erbyn Ebrill 2026. Bydd hyn yn effeithio ar y cyflenwad o fagiau siopa plastig untro, caeadau polystyren ar gyfer diodydd a chynwysyddion bwyd a chynhyrchion wedi'u gwneud o fath o blastig a elwir yn blastig oco-so-ddiraddadwy.

Rhagwelwyd, fel yn achos cyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro rai blynyddoedd yn ôl, y byddai'r gyfraith newydd yn ymwreiddio'n ddiraffferth, gyda chydymffurfiaeth lawn yn cael ei chyflawni.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Bryan Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd yr aelodau'n gefnogol i'r ddeddfwriaeth newydd o ystyried yr heriau amgylcheddol ac awgrymon nhw fod addysgu pobl i gael gwared â sbwriel yn gywir yn allweddol. Cydnabuwyd y byddai'r ddeddfwriaeth o bosibl yn arwain at ganlyniadau anfwriadol fel sy'n digwydd yn aml.
- Roedd busnesau'n ymwybodol o'r ddeddfwriaeth newydd cyn iddi ddod i rym ac o'r trafodaethau gyda 200-250 o fusnesau hyd yma, nid oedd dim problemau wedi'u nodi. O safbwynt gorfodi, roedd pwyslais yn gyntaf ar addysgu busnesau yn hytrach nag ar gamau cyfreithiol.
- Cydnabuwyd bod elfen o gost i fusnesau yn sgil cyflwyno'r gwaharddiad, fodd bynnag, roedd llawer o fusnesau wedi mabwysiadu'r dull o weithredu cyn iddo ddod yn gyfraith. Pe bai gan fusnesau blastigau untro gormodol, eu cyfrifoldeb nhw oedd cysylltu â chyflenwyr am ad-daliad neu gael gwared â nhw'n gywir.
- Codwyd pryderon pe bai'r un dull o weithredu o ran y gwaharddiad ar blastig untro yn cael ei gymhwyso i amaethyddiaeth, y byddai'n achosi anawsterau i ffermwyr. Nodwyd ei bod yn ofynnol i ffermwyr ailgylchu plastig a rhoi tystiolaeth o hyn, fodd bynnag, nid oedd busnesau fel gwerthwyr bwyd yn gallu olrhain ble roedd plastig yn cael ei waredu ar ôl ei roi i gwsmer.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyngor, mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 22.02.2018, wedi cefnogi'n unfrydol gynnig i leihau'r defnydd o blastig ac i gefnogi mentrau lleihau plastig yng Ngheredigion ac i gefnogi hyn, creŵp Grŵp Gorchwyl a Gorffen Aelodau.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad.

5 Cynnig i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democraataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth) yr adroddiad ar ran y Cynghorydd Matthew Vaux. O fewn Cyngor Sir Ceredigion, roedd diogelu a chymeradwyo safonau uchel o les anifeiliaid, yn bennaf fel rhan o gefnogi'r diwydiant ffermio, ac i gefnogi'r rhai sy'n mwynhau cadw anifeiliaid fel anifeiliaid anwes. Roedd yr awdurdod felly yn cefnogi ymgyrch yr RSPCA ar "roi anifeiliaid anwes fel gwobrau" drwy gynnig gweithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion. Ers dechrau ymgyrch yr RSPCA, roedd 13 o awdurdodau lleol Cymru wedi cefnogi'r ymgyrch.

Hyd y gŵyr Cyngor Sir Ceredigion, nid oedd yr un digwyddiad a gynhaliwyd ar dir y Cyngor yn cynnig Anifeiliaid Anwes fel Gwobrau ar hyn o bryd. Cynhaliwyd ffeiriau yn ystod yr Hydref yn Aberteifi, Aberaeron ac

Aberystwyth, fodd bynnag, deallwyd nad oedd pysgod aur yn cael eu rhoi fel gwobrau gan y gweithredwyr hyn.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Bryan Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Eglurwyd mai pwrpas y cynnig oedd gweithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau megis mewn rafflau neu ffeiriau lle nad oedd person wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer yr anifail, yn hytrach na gwneud cynnig am anifail byw mewn arwerthiant.
- Amlygwyd bod Covid-19 wedi effeithio ar les anifeiliaid gan fod y nifer uchaf erioed o bobl wedi prynu cŵn bach, ond yn ddiweddarach, yn methu â gofalu amdanynt. Ffocws y cynnig oedd gwella a diogelu lles anifeiliaid.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymhell i'r Cyngor wahardd yn llwyr roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir y Cyngor.

6 Cyflwyno i'r Pwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad ynglŷn â thrawsnewid Gwasanaethau Dydd (Pobl Hyn, Anableddau Dysgu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, ac Awtistiaeth) a Darpariaeth Seibiant (Gydol Oes) Ceredigion

Eglurodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant) mai pwrpas yr adroddiad oedd i graffu ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a'r Cynllun Gweithredu oedd wedi'i ddatblygu, gan wneud argymhellion i'r Cabinet. Ar 06.12.2022, cymeradwyodd y Cabinet y dylai'r Gwasanaeth fwrw ymlaen i gynnal ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori ehangach yn 2023 gan ganolbwyntio ar ail-lunio'r cyfleoedd o ran y gwasanaethau dydd a'r ddarpariaeth seibiant. Wrth ymgysylltu ac ymgynghori, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i brif egwyddorion y Strategaeth Llesiant Gydol Oes ochr yn ochr â'r Strategaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol oedd yn gysylltiedig ag Anableddau Dysgu, Plant sy'n Derbyn Gofal a chyfleoedd o ran seibiant ar sail gydol oes.

Bu i'r adolygiad ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:-

- Cyfleoedd o ran gwasanaethau dydd i oedolion hŷn gan gynnwys y rheiny sy'n byw gyda diagnosis o ddementia
- Cyfleoedd o ran gwasanaethau dydd i unigolion sy'n byw ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anawsterau dysgu dwys a lluosog
- Llwybrau pontio gydol oes ar gyfer y rheiny sy'n byw ag anableddau dysgu / awtistiaeth
- Darpariaeth seibiant (dydd a phreswyl) gydol oes

Cafodd ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori eang ei gynnal rhwng mis Mawrth a mis Awst 2023. Gwnaed y gwaith hwn gan gwmni annibynnol (Practice Solutions Limited) ac ariannwyd y gwaith drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bu ystod eang o randdeiliaid yn rhan o'r gwaith, gan gynnwys pobl oedd yn derbyn gofal seibiant a chyfleoedd dydd, teuluoedd a gofalwyr, sefydliadau darparu gwasanaethau, gweithwyr y cyngor oedd yn gweithio mewn canolfannau gofal cymdeithasol a chyfleoedd dydd, gweithwyr ieuchyd,

pobl ag anableddau dysgu, pobl â dementia, plant a phobl ifanc a phobl oedd ag anghenion cymhleth. Dosbarthwyd arolwg i'r rhai oedd yn defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd, gofalwyr di-dâl eraill, staff y Cyngor a staff yn y sefydliadau oedd yn bartneriaid i'r Cyngor.

Paratowyd arolwg ar gyfer y cyhoedd a oedd ar gael ar wefan y Cyngor ac yn ystod y cyfnod ymgysylltu, cafwyd 205 o ymatebion. Ochr yn ochr â hynny, fe wnaeth Practice Solutions ymgysylltu â 206 o bobl wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cymerodd cyfanswm o 411 o bobl ran yn yr adolygiad. Ar ôl cwblhau'r ymarferion ymgysylltu a'r ymarferion pen desg, dadansoddwyd y data a nodwyd y canfyddiadau. O'r canfyddiadau allweddol hyn datblygwyd nifer o argymhellion, er mwyn i'r Cyngor eu hystyried. Darparwyd trosolwg o'r canfyddiadau allweddol, yr argymhellion a'r camau nesaf fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Nodwyd na fyddai'n bosibl parhau i ddarparu gwasanaethau fel y gwnaethant dros yr 20 mlynedd diwethaf o ystyried y cynnydd mewn galw a chymhlethdod. Roedd adolygiad system gyfan o sut roedd gwasanaethau'n cael eu darparu, ac roedd yr holl gyfleoedd ac asedau'n cael eu hystyried er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i gymunedau lleol a byddai cynllun cadarn yn cael ei roi ar waith. Roedd llawer o awdurdodau lleol eraill wedi cwblhau taith debyg neu ar daith debyg, ac felly byddent yn gallu dysgu gan eraill.
- Roedd staff sy'n gweithio yn y Canolfannau yn cael eu hystyried yn hanfodol a byddent yn ganolog i symud y rhaglen waith yn ei blaen. Byddai staff yn parhau mewn rolau tebyg tra byddai eraill yn cael hyfforddiant pellach a fyddai'n eu galluogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau.
- Cydnabuwyd y gallai newid fod yn anodd i ddefnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a staff ac felly roedd ymgysylltu ac ymgynghori'n barhaus yn allweddol.
- Roedd yr aelodau'n gwerthfawrogi lefel y manylder yn yr adroddiad a phwysigrwyd y gwasanaeth i gymunedau lleol. Awgrymwyd Gweithdy Aelodau yn un o'r canolfannau gwasanaeth lle gallent o bosibl gwrdd â defnyddwyr y gwasanaeth/staff. Teimlai'r aelodau y byddai hyn yn eu galluogi i gael gwell dealltwriaeth o wasanaethau seibiant a gwasanaethau dydd.
- Cydnabuwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ymgynghoriadau, fodd bynnag, o'r 411 o ymatebion, cafwyd ymatebion trylwyr o ansawdd uchel.
- Teimlai'r aelodau ei bod yn drueni nad oedd Awel Deg yn Llandysul yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad ac argymhell i'r Cabinet:

1. Bod gweithdy yn cael ei drefnu yn gynnar yn 2024 ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach:

- Fel rhan o'r gweithdy hwn, bydd cyflwyniad yn cael ei roi i'r Aelodau am leoliadau'r Canolfannau a'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd.
- Y gobaith yw y bydd modd cynnal y Gweithdy yn un o Ganolfannau'r Awdurdod.

2. Bod y Cabinet yn cytuno i fwrw ymlaen â'r gwaith o ail-lunio'r gwasanaethau dydd a'r ddarpariaeth seibiant yn unol â'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant a'r ffactorau cenedlaethol sy'n sbarduno newid.

Diolchodd y Cynghorydd Alun Williams a'r Cadeirydd i'r Swyddogion a fu'n ymwneud â'r gwaith.

7 Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddarau gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar ol 6 mis AGC

Rhodddwyd ystyriaeth i Gynllun Gweithredu Diweddaedig AGC y gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor amdano 6 mis ar ôl yr arolygiad.

Eglurodd Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro ei bod yn fodlon ar y cynnydd ac er bod rhai meysydd yn arafach nag eraill, roedd hyn oherwydd yr heriau recriwtio. Yn dilyn penodi Swyddog Sicrhau Ansawdd, roedd cynnydd wedi'i wneud yn y meysydd hyn hefyd a byddai'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn 31.03.2024. Roedd AGC yn fodlon ar y cynnydd hefyd ac yn gwerthfawrogi'r ddeialog gyda'r awdurdod lleol.

Eglurodd y Cadeirydd fod Swyddogion wedi dweud y byddai fformat a gosodiad y Cynllun Gweithredu yn haws ei ddefnyddio pan fyddai'n cael ei gyflwyno eto ymhen 6 mis arall.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Williams ei fod yn fodlon ar yr arolygiad, ond fel bob amser, roedd yna feysydd i'w gwella a nodwyd gan Swyddogion. Yn dilyn yr arolygiad, roedd Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu yn canolbwyntio ar y gwelliannau sydd eu hangen.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

8 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022.2023

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/2023. Roedd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddiffinio yn Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y "Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol". Nod yr Adroddiad Blynyddol oedd i greu darlun cyflawn o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion, gan roi adborth amserol ar gyfer prosesau cynllunio a chyllido.

Nodwyd bod cyfnod o newid wedi bod o ran Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bu Audrey Somerton-Edwards, Swyddog

Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro yn allweddol yn ystod y cyfnod hwn ac o ran cynhyrchu'r adroddiad.

Eglurodd Audrey Somerton-Edwards, yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth ynghylch cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y byddai'n ddogfen fwy cryno wrth symud ymlaen.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

9 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 1 2023-2024

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 1 2023/2024. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddiwyd i fesur y canlyniadau ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal a phlant oedd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac roedd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth oedd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymhell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael Cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen cymryd y cam hwn ar gyfer 2 plentyn yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oedd yn, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yr adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant oedd yn Derbyn Gofal Amlasiantaethol oedd yn cwrdd bob chwarter; roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill oedd yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Roedd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol, a chynhaliwyd y cyfarfodydd hyn bob chwarter. Aeth y Cynghorydd Alun Williams ymlaen i gyflwyno Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiadau.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

10 Cofnodion 12.9.23 Cyfarfod y Gweithgor Craffu ar y cyd, Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y Cyd-weithgor Craffu o gyfarfod Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 12.09.2023. Nodwyd y bydd Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r cofnodion a'r trefniadau newydd.

11 Ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor 2023.2024

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Gweithdy ar Fenter Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd Ceredigion
- Cytunodd yr Aelodau i estyn gwahoddiad i Barcud a Thai Wales and West (Mawrth 2024)
- Eitem ar ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn y sir

12 Ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 18.9.2023 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.09.2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____